# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad 2021/2022

Llywodraethwyr Ysgol



Annwyl Lywodraethwr

Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn academiadd arall, hoffwn ddiolch i chi am eich ymroddiad parhaus i'n hysgolion. I'r sawl ohonoch sydd yn newydd i'r rôl fel llywodraethwr ysgol, diolch i chi am gytuno i wneud y swydd bwysig hon ac rwy'n siŵr y gwnewch fwynhau.

Cytunodd y Cyngor ar welliant addysg yr awdurdod lleol – y Strategaeth Codi Dyheadau a Chodi Safonau (https://www.merthyr.gov.uk/resident/rars/) ym mis Tachwedd 2020 a bydd eich ysgol wedi gwneud cysylltiadau allweddol â Chynlluniau Gwelliant yr Ysgol ar y mater pwysig hwn.

Bydd ein cynllun hyfforddi eleni yn cynorthwyo'ch dealltwriaeth o'ch rôl a sut y gallwch weithio yn eich ysgol er mwyn parhau i wella'r cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Cefnogir y cynllun hyfforddi hwn â hyfforddiant gan y Consortiwm.

Gall nifer o'r sesiynau hyn gael eu darparu ar gyfer Grwpiau Gwelliant Llywodraethwyr ac i Lywodraethwyr Unigol a byddwn yn cynnwys adnoddau pob sesiwn ar y Rhwydwaith i Lywodraethwyr.

Diolch i chi unwaith yn rhagor ac edrychaf ymlaen at gael cydweithio â chi yn ystod y deuddeg mis nesaf.

*Sue*

**SUE WALKER**
**Prif Swyddog (Dysg)/Prif Swyddog Addysg**

COFRESTRU AR GYFER CYRSIAU HYFFORDDI I LYWODRAETHWYR

Sicrhewch eich bod y cofrestru ar gyfer pob cwrs yr ydych am eu mynychu. Mae cofrestru'n ein galluogi i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer pob sesiwn hyfforddi ac yn sicrhau ein bod yn gallu cysylltu â phawb, o flaen llaw, petai unrhyw newidiadau.

Bydd pob sesiwn yn cael eu cynnal ar All Microsoft Teams. Cysylltwch ag Emma France neu Hayley Craze er mwyn derbyn dolen.

Emma France – emma.france@merthyr.gov.uk
Hayley Craze – hayley.craze@merthyr.gov.uk

Bydd pob sesiwn oddeutu 1 awr 30 munud o hyd a bydd gan lywodraethwyr gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod cynnwys y sesiwn â'r hwyluswyr. Bydd rhagor o fanylion am y cyrsiau a'r hwyluswyr yn cael eu e-bostio at bob llywodraethwr ar ddechrau pob tymor.

## Tymor yr Hydref 2021

| Sesiwn | Dyddiad/Amser |
|---|---|
| Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion<br>*Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau RARS* | 14 Medi 2021 am 4:00-5.30pm |
| Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru<br>*Cynorthwyo Iechyd a Llesiant dysgwyr RARS* | 14 Hydref 2021 am 4:00-5.30pm |
| Dull yr Ysgol Gyfan i Iechyd Meddwl<br>*Cynorthwyo Iechyd a Llesiant dysgwyr RARS* | 9 Tachwedd 2021 am 4:00-5.30pm |

## Tymor y Gwanwyn 2022

| Sesiwn | Dyddiad/Amser |
|---|---|
| Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion<br>*Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau RARS* | 13 Ionawr J2022 am 4:00-5.30pm |
| Prosesau AD gan gynnwys Dileu Swyddi, Achosion Disgyblu a newid y Strwythur Staffio.<br>*Datblygu'r gweithlu addysg RARS* (Ar gyfer cyrff llywodraethu sydd yn prynu CLG AD) | 27 Ionawr 2022 am 4:00-5.30pm |
| Rheolaeth Gyllidebol Effeithiol – Gosod y Gyllideb, Monitro, MTFP a Chategoreiddio Risg Ariannol<br>*Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau RARS* | 8 Mawrth 2022 am 4:00-5.30pm |

## Tymor yr Haf 2022

| Sesiwn | Dyddiad/Amser |
|---|---|
| Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion<br>*Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Systemau RARS* | 3 Mai 2022 am 4:00-5.30pm |
| Recriwtio Mwy Diogel<br>*Datblygu'r gweithlu addysg RARS* | 17 Mai 2022 am 4:00-5.30pm |
| Iechyd a Diogelwch<br>*Datblygu amgylchedd dysgu RARS* | 21 Mehefin 2022 am 4:00-5.30pm |